

amserbeibl

Storiau o'r Beibl – Safon 1

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oed _____ Dyddiad geni _____

Enw _____

Cyfeiriad _____

Enw Arweinydd y Dosbarth _____



Lliwiwch y lluniau yn y storiâu hyn o'r Efyngylau

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th



DARLLENWCH
Luc 18: 35-43

Mae'r stori
yma'n sôn am:
**lesu'n helpu
dyn dall**


Stori 1 Dyn dall yn gweld

Roedd dyn dall yn eistedd wrth ochr y ffordd. Am ei fod yn methu gweld, roedd yn methu gweithio. Felly roedd yn gofyn i bobl am arian.

Un diwrnod, roedd yn gallu clywed llawer o bobl gerllaw. Roedd rhywbeth arbennig yn digwydd.

Dywedodd rhywun wrth y dyn dall fod lesu yn dod yno. Roedd wrth ei fodd.

Roedd yn gwybod y byddai lesu'n gallu gwneud iddo weld! Dechreuodd weiddi enw lesu yn uchel. Clywodd lesu ef a galw arno.



Pwy oedd yn dod?

— — — —

Roedd y dyn dall yn gwybod y gallai lesu wneud iddo _ _ _ _ .

Dywedodd y dyn wrth lesu ei fod eisiau gweld. Roedd lesu'n falch fod y dyn dall yn credu ynddo. Siaradodd lesu ag ef ac yna roedd yn gallu gweld! Roedd yn hapus iawn. Dilynodd y dyn lesu i lawr y ffordd gan ddiolch i Dduw ei fod yn gallu gweld.



DARLLENWCH

Ioan 6: 1-14

Mae'r stori
yma'n sôn am:
**lesu'n rhoi
bwyd i lawer
o bobl.**

Stori 2 Bwydo'r dyrfa


Ydych chi'n
hoffi cael
picnic neu
farbeciw?
Mae'n hwyl
cael bwyta y
tu allan pan
fydd y tywydd
yn braf.



Dyma i chi
stori am
bicnic mawr
iawn. Roedd llawer o bobl wedi dod i wrando ar Iesu. Roedden
nhw wedi bod yno am amser hir ac roedd eisiau bwyd arnyh nhw.
Doedd dim siopau na chaffis yn ymyl.

Daeth Andreas, un o ffrindiau Iesu, o hyd i fachgen yn y dyrfa oedd
wedi dod â phum torth fach a dau bysgodyn gydag ef. Dim ond
digon i'r bachgen ei hunan oedd hyn ond rhoddodd ef y bwyd i
Andreas a
rhoddodd
Andreas ef i
Iesu.

**Unwch y
dotiau i weld
beth oedd yn y
fasged ac yna
lliwiwch y llun.**



**Pwy ddaeth â'r
bwyd at Iesu?**

A _____

Dyweddodd Iesu wrth y bobl am eistedd ar y llawr. Yna, diolchodd
i Dduw am y bwyd. Wedyn dechreuodd ffrindiau Iesu rannu'r bara
a'r pysgod. Roedd yno ddigon i bawb. Roedd Iesu'n gallu gwneud
digon o fwyd i bawb gan ei fod yn Fab Duw.




DARLLENWCH
Ioan 5: 1-15

Mae'r stori
yma'n sôn am:
Iesu'n gwneud
rhywun yn hapus

Stori 3 Dyn cloff yn cerdded

Ydych chi wedi syrthio a brifo'ch coes erioed? Efallai eich bod wedi cael bandej neu blastr ac wedi cael trafferth cerdded. Doedd y dyn yn y stori heddiw ddim yn gallu cerdded ers 38 o flynyddoedd!



Dyna amser hir! Bob dydd, roedd ei ffrindiau'n ei gario i ymyl pwll dŵr. Roedd y dyn yn gobeithio y byddai dŵr y pwll yn ei wneud yn well.

Un diwrnod, daeth Iesu heibio. Stopiodd a siarad â'r dyn cloff.

“Wyt ti eisiau gwella?” gofynnodd Iesu. “Ydw,” meddai'r dyn.

“Cwyd ar dy draed, cwyd dy fat a cherdda,” meddai Iesu.

Er nad oedd y dyn wedi cerdded ers amser hir, roedd yn gallu codi a cherdded yn iawn. Roedd yn hapus iawn! Hwn oedd diwrnod gorau ei fywyd.

Rhowch ✓ neu X i ddangos a yw'r brawddegau hyn yn gywir neu'n anghywir.


Doedd y dyn ddim wedi cerdded

ers 38 o flynyddoedd.

Roedd yn eistedd wrth ochr y ffordd.

Roedd yn gallu cerdded ar ôl i

Iesu siarad ag ef.



Tynnwch lun wyneb hapus y dyn.

Mae Iesu'n gallu ein gwneud ni'n hapus hefyd os gofynnwn ni iddo fod yn ffrind i ni.



DARLLENWCH
Marc 5: 21-43

Mae'r stori
yma'n sôn am:
Iesu'n rhoi bywyd
newydd.

Stori 4 Merch oedd wedi marw'n dod yn fyw!

Roedd Jairus yn drist. Roedd ei ferch yn sâl iawn. Doedd y meddyg ddim yn gallu ei gwella. Penderfynodd Jairus ofyn i Iesu am help. Roedd e'n gwybod bod Iesu'n gallu gwella pobl.

Aeth Jairus i chwilio am Iesu a daeth o hyd iddo. Pan oedden nhw'n cerdded nôl i gartref Jairus, daeth dynion a dweud bod y ferch wedi marw. Doedd dim pwynt i Iesu ddod i'r tŷ.


Gofynnodd Jairus

i I _____ ei helpu.

Ond aeth Iesu adref gyda Jairus. Dywedodd wrtho am beidio ag ofni. Roedd llawer o bobl yn llefain yn y tŷ. Aeth Iesu â Jairus a mam y ferch, a Pedr, lango a loan i ystafell y ferch.

Roedden nhw i gyd yn synnu pan welson nhw beth ddigwyddodd nesaf.

Gafaelodd Iesu yn llaw'r ferch a dweud wrthi am godi. Cododd y ferch a cherdded o gwmpas! Gan fod Iesu'n Fab Duw, roedd yn gallu rhoi bywyd i'r ferch. Mae'n gallu rhoi bywyd tragwyddol i ni hefyd.



Llanwch y bylchau.

Roedd y ferch wedi _____ ond gwnaeth Iesu hi'n _____
_____ unwaith eto.

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn